COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED RHOSYR A GYNHALWYD YN NEUADD PENTREF LLANGAFFO AM 7.00 O'R GLOCH NOS LUN MEDI 30ed 2019

AELODAU'N BRESENNOL:

Cadeirydd Tim Owen
Cynghorwyr : Thomas Hughes, Dennis Owen, Glenys Owen a Mrs Jane Sykes, Dennis Owen a Gwylim Roberts Cynghorydd Jane Roberts David Roberts a Cynghorydd Peter Rogers a Bryan Owen.
Cyfieithydd : Rhiannon Roberts

1.YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Angharad Jones a Lowri Owen Cynghorydd O.M.Thomas.

2: DATGAN DIDDORDEB : Datgan diddordeb gan y cadeirydd Tim Owen

3: COFNODION Y MIS BLAENOROL: Penderfyniad: Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Jane Roberts a eilwyd gan y Cynghorydd David Roberts Derbyniwyd y rhain ac arwyddwyd fel rhai cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ed o Orffenaf 2019.

4: MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL :

4.1 Gwrychoedd ac ymylon: Mae'r holl waith gofynnol wedi'i wneud
4.2. Cadarnhawyd y bydd yr A4080 yn Dwyran yn dod yn safle byw ar gyfer fan gyflymder Arrive Alive.
4.3.Cyflwynwyd llythyrau oddi wrth Martin Jones ynghylch ar Trilathlon Sandman yn Niwbwrch, cadarnhawyd bod y trefnwyr Aim High a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfarfod i drafod digwyddiad eleni a chytunwyd i'r clerc gysylltu â'r cyngor i leisio'r pryderon a godwyd a'r cyngor cymuned.
4.4. Mae'r clerc wedi derbyn mai pris yr cabinet diffibriliwr yn Dwyran, sef £424.00 ac anfonwyd siec i'r pwyllgor.
4.5. Cadarnhawyd bod y cebl ar ddiwedd y ffordd filltir wedi'i atgyweirio a bod drych wedi'i osod wrth gyffordd Tyddyn Pwrpas Niwbwrch.

5: MYNWENTYDD, TORRI GLASWELLT A LLWYBRAU: Dim iw adrodd.

6: CEISIADAU CYNLLUNIO. : Arwydd heb ei oleuo yn Rushmead Pen Lon Niwbwrch - Dim Gwrthwynebiad.
Cais llawn i leoli tair caban gwyliau, ffurfio trac mynediad newydd, diwygiadau i fynediad presennol ynghyd â ffurfio gwaith trin newydd yn Fronwen Newborough - Mae'r Cynghorydd Sir Bryan Owen wedi galw'r cais hwn i mewn.

7: PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO'R CYNGOR : HHP/2019/194 Cefn Mawr Uchaf Niwbwrch – Caniatad.

8: ADRODDIADAU CYNGHORWYR : Diweddarodd y Cynghorwyr Dennis Owen y cyngor ar y cyfarfod Un Llais a fynychodd a diweddarodd y Cynghorydd David Roberts y cyngor ynghylch cyfarfod grŵp Partneriaeth Llifogydd Dwyran.

9: ADRODDIADAU CYNGOR SIR: Diweddarodd y Cynghorydd Sir Bryan Owen y cyngor cymuned ynghylch y llinellau melyn ger stad Pen y Bryn Dwyran a'r problemau o ran cludo bysiau ar gyfer y plant ysgol lleol a lleoliad y llochesi bysiau. Canmolodd y Cynghorydd Owen hefyd y gwaith a wnaed gan y grŵp partneriaid llifogydd lleol. Gofynnwyd i'r clerc iddi ysgrifennu at Gyngor Sir Ynys Môn i ofyn i'r bloc Toiledau yn Niwbwrch gael ei dynnu o'r farchnad tra bod y problemau traffig yn Niwbwrch yn cael ei trafod.

10; GOHEBIAETH : Medi 2019 **:** Gweler y daflen atodedig

11: MATERION ARIANNOL A GWEINYDDU:

11.1: Adroddiad Ariannol Misol: Datganiad Bank Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y cadeirydd.
11.2 Asesiadau Risg Ni chafwyd unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

12 : TALIADAU: Penderfynwyd talu'r canlynol:	**£**
Ddraig Goch Tanwydd	130.03
Neuadd Pentref Llangaffo Lleogi Ystafell	15.00
Alun Thomas Torri glasswellt	1,048.30
Cyflog Cerc x 3	1,119.36
Cyfieithydd	147.00
Cabinet Diffibriliwr	424.80

	£2,884.49

Derbynwyd £60 gosod carrag fedd
Precept 2/3 £8,800.00

13. MATERION ERILL:

13.1 Codwyd pryder ynghylch gordyfiant y gwrychoedd wrth gyffordd yr ysgol yn Niwbwrch a'r gilfan erbyn 18/19 Ucheldre Niwbwrch, hefyd mae'r gwrych helyg ger y gylchfan ym Mhenlon Niwbwrch bod y gordyfiant yn cyfyngu'r olygfa, yn Dwyran mae cyffordd bwthyn botel Ink mae'r gwrychyn wedi gordyfu ac mae problemau gyda sbwriel yn stad Cae Berllan Llangaffo. Cytunwyd i hysbysu Priffyrdd o'r rhain unwaith eto.
13.2 Bu cais i'r fan camera cyflym fynychu Llangaffo ger yr eglwys yn fwy rheolaidd. Gofynnwyd am hyn gan Briffyrdd.
13.3. Derbyniwyd llythyr cwyn ynglŷn â Ffensio gwarthaeg yn Dwyran. Datgen diddordeb gan y Cadeirydd T.Owen ar yr eitem hon a chytunodd i roi sylw i'r mater.

13.4. Adroddwyd am broblemau gyda'r giât yn yr ysgol yn Llangaffo a chytunwyd i gysylltu yn uniongyrchol ag adran Addysg y cyngor sir a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar y safle gyda'r cynghorydd lleol.
13.5. Adroddwyd bod problemanu hefo wynebau ar y ffyrdd ar gyffordd Bryngwyn Niwbwrch ac yn Frondeg Llangaffo, ac mae angen clirio'r ffosydd o Frondeg i Ceau Brychion. Mae angen torri canol y ffordd o Cae Gors i Cefn Llanfair yn ogystal â'r gwrychoedd ar hyd y ffordd hon. Cytunwyd i ysgrifennu at briffyrdd i roi gwybod am y problemau hyn.

BYDD Y CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED RHOSYR 7.00PM AR DDYDD LLUN 28ed HYDREF 2019 YN YR HEN FECWS DWYRAN